

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Canlyniadau Refferendwm Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011

Mawrth 2011

Mae'r papur hwn yn rhoi canlyniadau Refferendwm Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011. Mae'n cynnwys cymariaethau â chanlyniadau Refferendwm 1997.

Gwasanaeth  
Ymchwil yr  
Aelodau



# Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**Mae Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau'n darparu cymorth ymchwil cyfrinachol a diduedd i bwyllgorau craffu a phwyllgorau deddfwriaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac i'r 60 o Aelodau'r Cynulliad a'u staff.**

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gfael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:  
[www.cynulliadcymru.org/bus-assembly-publications-research.htm](http://www.cynulliadcymru.org/bus-assembly-publications-research.htm)

Mae copïau printiedig hefyd ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau:

Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

E-bost: [MembersLibrary@wales.gov.uk](mailto:MembersLibrary@wales.gov.uk)

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011

Ceir atgynhychu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhychu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# **Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

## **Canlyniadau Refferendwm Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011**

Mawrth 2011

Martin Jennings

Rhif dogfen: 11/017

Daw'r wybodaeth yn y cyhoeddiad hwn o wybodaeth a ddarparwyd gan y Comisiwn Etholiadol.



Gwasanaeth  
Ymchwil yr  
Aelodau



# Cynnwys

Cyflwyniad .....	1
Canlyniad Cyffredinol .....	1
Darpariaethau cychwyn.....	1
Canlyniadau yn ôl awdurdod lleol .....	2
Cymhariaeth o'r ganran a bleidleisiodd â'r ganran a bleidleisiodd mewn etholiadau eraill yng Nghymru .....	5
Cymariaethau rhwng canlyniadau refferendwm 1997 a refferendwm 2011 .....	6
A. Mapiau yn dangos canlyniadau a nifer y pleidleisiau ar gyfer Refferendwm 1997 .....	7



# Canlyniadau Refferendwm mis Mawrth 2011

## Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn rhoi crynodeb o ganlyniadau, pleidleisiau, cyfran a'r ganran a bleidleisiodd yn y refferendwm yng Nghymru ar bwerau deddfu'r Cynulliad ar 3 Mawrth 2011.

Cynhaliwyd y bleidlais ar y cwestiwn a ganlyn:

Ydych chi am i'r Cynulliad allu llunio deddfau ar yr **holl** faterion yn yr 20 o feysydd pwnc y mae ganddo bwerau ar eu cyfer? Ydw / Nac ydw

Cafodd canlyniadau'r refferendwm eu casglu a'u rhyddhau ar lefel llywodraeth leol. Felly, mae'r canlyniadau yn y papur hwn ar gael yn ôl y 22 ardal llywodraeth leol. Bwriedir i'r papur hwn gael ei ddarllen fel dogfen liw, ac mae'n bosibl na fydd llawer o'r siartiau, tablau a mapiau yn hollol ddealladwy mewn du a gwyn.

## Canlyniad Cyffredinol

Canlyniad swyddogol refferendwm 2011 ar bwerau deddfu'r Cynulliad oedd 63.5 y cant o bleidleisiau 'ydw' a 36.5 y cant a bleidleisiodd 'nac ydw'. Y canran a bleidleisiodd yn y refferendwm oedd 35.6 y cant.

O'r 22 o awdurdodau lleol, pleidleisiodd dros 50 y cant 'ydw' mewn 21 o awdurdodau lleol o'i gymharu â 1 lle y pleidleisiodd mwyafrif 'nac ydw'. Roedd y gyfran uchaf o bleidleisiau 'ydw' yn Gwynedd 76.0 y cant a'r gyfran uchaf o bleidleisiau 'nac ydw' yn Sir Fynwy 50.6 y cant.

Cyfartaledd y ganran a bleidleisiodd yn y refferendwm oedd 35.6 y cant. Roedd y ganran a bleidleisiodd yn amrywio rhwng 27.0 a 44.4 y cant. Roedd y ganran a bleidleisiodd ar ei huchaf yn Sir Gaerfyrddin, 44.4 y cant, ac ar ei hisaf yn Wrecsam, 27.0 y cant.

## Darpariaethau cychwyn

O dan Gymal 105 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006<sup>1</sup>, yn dilyn pleidlais mwyafrif o 'Ydw' yn y refferendwm, mae'n ofynnol, wedyn, i Weinidogion Cymru wneud darpariaethau ar gyfer Rhan 4 o Ddeddf 2006 i ddod i rym drwy orchymyn. Byddai angen i'r Gorchymyn hwnnw gael ei osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol gan Weinidogion Cymru a byddai angen cymeradwyaeth mwyafrif Aelodau'r Cynulliad mewn Cyfarfod Llawn cyn dod i rym.

---

<sup>1</sup> [Deddf Llywodraeth Cymru 2006 \(c.32\)](#)

I gael rhagor o fanylion, ewch i gyhoeddiad Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau, [Refferendwm Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011](#).

## Canlyniadau yn ôl awdurdod lleol

Mae'r tabl isod yn dangos y nifer a'r gyfran o bobl a bleidleisiodd yn refferendwm 2011 yn ôl ardal awdurdod lleol

**Tabl 1 Canlyniadau refferendwm 2011 yn ôl awdurdod lleol**

	Nifery pleidleisiau %	Pleidleisiau Ydw (a)		Pleidleisiau Nac ydw (b)	
		%	Nifer	%	Nifer
Ynys Môn	43.8	64.8	14,011	35.2	7,620
Gwynedd	43.4	76.0	28,200	24.0	8,891
Conwy	33.8	59.7	18,368	40.3	12,390
Sir Ddinbych	34.5	61.8	15,793	38.2	9,742
Sir y Fflint	29.4	62.1	21,119	37.9	12,913
Wrecsam	27.0	64.1	17,606	35.9	9,863
Powys	39.7	51.6	21,072	48.4	19,730
Sir Ceredigion	44.1	66.2	16,505	33.8	8,412
Sir Benfro	38.7	55.0	19,600	45.0	16,050
Sir Gaerfyrddin	44.4	70.8	42,979	29.2	17,712
Abertawe	32.9	63.2	38,496	36.8	22,409
Castell-nedd Port Talbot	38.0	73.0	29,957	27.0	11,079
Pen-y-bont ar Ogwr	35.6	68.1	25,063	31.9	11,736
Bro Morgannwg	40.1	52.5	19,430	47.5	17,551
Caerdydd	35.2	61.4	53,427	38.6	33,606
Rhondda Cynon Taf	34.6	70.7	43,051	29.3	17,834
Merthyr Tudful	30.1	68.9	9,136	31.1	4,132
Caerffili	34.6	64.3	28,431	35.7	15,751
Blaenau Gwent	32.4	68.9	11,869	31.1	5,366
Tor-faen	33.8	62.8	14,655	37.2	8,688
Sir Fynwy	35.8	49.4	12,381	50.6	12,701
Casnewydd	27.9	54.8	15,983	45.2	13,204
<b>Cymru</b>	<b>35.6</b>	<b>63.5</b>	<b>517,132</b>	<b>36.5</b>	<b>297,380</b>

Ffynhonnell: Y Comisiwn Etholiadol

(a) Pleidleisiau dilys a gafodd eu bwrw o blaid galluogi'r Cynulliad i wneud deddfau ar bob mater yn yr 20 maes pwnc y mae ganddo bwerau drostynt.


(b) Pleidleisiau dilys a gafodd eu bwrw yn erbyn galluogi'r Cynulliad i wneud deddfau ar bob mater yn yr 20 maes pwnc y mae ganddo bwerau drostynt.

Sylwer - Mae'r ganran a bleidleisiodd yn dangos y gyfran o'r etholwyr sydd wedi cofrestru i bleidleisio ac a bleidleisiodd. Mae hyn yn cynnwys papurau pleidleisio a wrthodwyd.

Mae'r ganran a bleidleisiodd 'ydw', fel cyfran o bleidleisiau dilys, i'w gweld ym Map 1 ac mae'r ganran a bleidleisiodd i'w gweld ym Map 2. Er mwyn cymharu, mae mapiau cyfatebol ar gyfer canlyniadau refferendwm 1997 i'w cael yn Atodiad A. Mae hyn yn cynnig cymariaethau diddorol o ran sut mae canlyniadau cymharol a'r ganran a bleidleisiodd yn amrywio rhwng y ddwy bleidlais.




Map 1 Canlyniadau Refferendwm 2011 yn ôl awdurdod lleol, cyfran o bleidleisiau 'ydw'.



Ffynhonell: Y Comisiwn Etholiadol a Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau  
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2011.  
Arolwg Ordnans 100047295.

## Map 2 Y ganran a bleidleisiodd yn Refferendwm 2011 yn ôl awdurdod



Ffynhonell: Y Comisiwn Etholiadol a  
Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau  
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2011.  
Arolwg Ordians 100047295.

## Cymhariaeth o'r ganran a bleidleisiodd â'r ganran a bleidleisiodd mewn etholiadau eraill yng Nghymru

Y diffiniad o ganran a bleidleisiodd a ddefnyddir yn y papur hwn yw'r pleidleisiau dilys a gafodd ei bwrw fel canran o'r etholaeth.

Y ganran a bleidleisiodd yn refferendwm 1997 o ran a ddylid cael Cynulliad i Gymru oedd 50.3 y cant. Mae hyn yn cymharu â chanran a bleidleisiodd o 35.6 y cant yn refferendwm 2011 ar bwerau'r Cynulliad.

Mae'r tabl isod yn dangos y ganran a bleidleisiodd mewn etholiadau amrywiol o bwys yng Nghymru ers 1999, gan gynnwys refferendwm 1997.

**Tabl 2 Y ganran a bleidleisiodd mewn etholiadau a refferenda yng Nghymru**

<u>Etholiad / Refferendwm</u>	<u>Blwyddyn</u>	<u>Nifer y pleidleisiau %</u>
Refferendwm Cynulliad Cymru	1997	50
Cynulliad Cenedlaethol Cymru	1999	46
Llywodraeth Leol Cymru	1999	49
Etholiadau Ewrop (Cymru)	1999	28
Etholiad Cyffredinol y DU (Cymru)	2001	62
Cynulliad Cenedlaethol Cymru	2003	38
Llywodraeth Leol Cymru	2004	42
Etholiadau Ewrop (Cymru)	2004	42
Etholiad Cyffredinol y DU (Cymru)	2005	62
Cynulliad Cenedlaethol Cymru	2007	43
Llywodraeth Leol Cymru	2008	44
Etholiadau Ewrop (Cymru)	2009	31
Etholiad Cyffredinol y DU (Cymru)	2010	65
Refferendwm ar bwerau deddfu	2011	36

Ffynhonnell: Crynhoad o Ystadegau Ardaloedd Lleol Cymru 2000, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau- [Canlyniadau Etholiad y Cynulliad 2007 \(diweddarwyd\)](#), [Y Comisiwn Etholiadol Adroddiad ar etholiadau lleol yng Nghymru](#), [Swyddfa Wybodaeth Senedd Ewrop yn y Deyrnas Unedig](#), Gwefan y Comisiwn Etholiadol - [The 2010 General Election: aspects of participation and administration](#)

Mae'r tabl yn dangos bod, ar y cyfan, ddwy ran o dair o'r etholwyr wedi pleidleisio mewn Etholiadau Cyffredinol, tua hanner fesul canran wedi pleidleisio mewn refferenda, rhwng 40 a 50 y cant wedi pleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol, ychydig yn llai yn etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol a thua traean mewn etholiadau Ewropeaidd.

## Cymariaethau rhwng canlyniadau refferendwm 1997 a refferendwm 2011

Mae'r tabl canlynol yn cymharu canlyniadau refferenda 1997 a 2011. Dylid nodi bod y cwestiynau yn y refferenda hyn yn wahanol ac nad yw'r canlyniadau'n gymaradwy mewn unrhyw ffordd.


Mae'r wybodaeth yn ddiddorol er mwyn cymharu'r nifer a bleidleisiodd a'r canlyniadau.

**Tabl 3 Canlyniadau a'r ganran a bleidleisiodd yn ôl awdurdod lleol, refferenda 1997 a 2011**

	1997 Refferendwm			2011 Refferendwm		
	Nifer y pleidleisiau %	Pleidleisiau Ydw (b)		Nifer y pleidleisiau %	Pleidleisiau Ydw (a)	
		%	Number		%	Number
Ynys Môn	57.0	50.9	15,649	43.8	64.8	14,011
Gwynedd	60.0	64.1	35,425	43.4	76.0	28,200
Conwy	51.6	40.9	18,369	33.8	59.7	18,368
Sir Ddinbych	49.9	40.8	14,271	34.5	61.8	15,793
Sir y Fflint	41.1	38.2	17,746	29.4	62.1	21,119
Wrecsam	42.5	45.3	18,574	27.0	64.1	17,606
Powys	56.5	42.7	23,038	39.7	51.6	21,072
Sir Ceredigion	57.1	59.2	18,304	44.1	66.2	16,505
Sir Benfro	52.8	42.8	19,979	38.7	55.0	19,600
Sir Gaerfyrddin	56.6	65.3	49,115	44.4	70.8	42,979
Abertawe	47.3	52.0	42,789	32.9	63.2	38,496
Castell-nedd Port Talbot	52.1	66.5	36,730	38.0	73.0	29,957
Pen-y-bont ar Ogwr	50.8	54.4	27,632	35.6	68.1	25,063
Bro Morgannwg	54.5	36.7	17,776	40.1	52.5	19,430
Caerdydd	47.0	44.4	47,527	35.2	61.4	53,427
Rhondda Cynon Taf	49.9	58.5	51,201	34.6	70.7	43,051
Merthyr Tudful	49.8	58.2	12,707	30.1	68.9	9,136
Caerffili	49.5	54.7	34,830	34.6	64.3	28,431
Blaenau Gwent	49.6	56.1	15,237	32.4	68.9	11,869
Tor-faen	45.6	49.8	15,756	33.8	62.8	14,655
Sir Fynwy	50.7	32.1	10,592	35.8	49.4	12,381
Casnewydd	46.1	37.4	16,172	27.9	54.8	15,983
<b>Cymru</b>	<b>50.3</b>	<b>50.3</b>	<b>559,419</b>	<b>35.6</b>	<b>63.5</b>	<b>517,132</b>


Ffynhonnell: Crynhoad o Ystadegau Ardaloedd Lleol Cymru 2000, Gwefan y Comisiwn Etholiadol a chyfrifiadau Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

A. Mapiau yn dangos canlyniadau a nifer y pleidleisiau ar gyfer Refferendwm 1997  
 Map 3 Canlyniadau Refferendwm 1997 yn ôl awdurdod lleol, cyfran o bleidleisiau 'ie'



Ffynhonell: Y Comisiwn Etholiadol a Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau  
 © Hawlfraint y Coron a hawliau cronfa ddata 2011.  
 Arolwg Ordnans 100047295.

Map 4 Y ganran a bleidleisiodd yn Refferendwm 1997 yn ôl awdurdod lleol



Ffynhonell: Y Comisiwn Etholiadol a Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau  
 © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2011.  
 Arolwg Ordnans 100047295.